**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

N Ramsay, AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

19 Mai 2020

Annwyl Mr Ramsay,

**Dull gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer ymateb i'r argyfwng iechyd cyhoeddus**

Diolch am y cyfle diweddar imi friffio'r Pwyllgor ar ein hymateb i'r argyfwng iechyd cyhoeddus presennol. Rwy'n gobeithio y bu'r sesiwn yn ddefnyddiol i'r Aelodau. Byddaf yn ysgrifennu maes o law i ddarparu gwybodaeth bellach fel yr addewais.

Mae'n ddrwg gennyf fod y sesiwn wedi dechrau'n hwyr oherwydd yr anawsterau cysylltu o'm hochr i, ac rwy'n ddiolchgar iawn i staff y Comisiwn am helpu i ddatrys yr anawsterau technegol. Rwy'n sylweddoli bod yr oedi wedi golygu y bu'n rhaid i'r Pwyllgor symud ymlaen yn syth at gwestiynau gan yr Aelodau. Yn anffodus, nid oedd amser wedi caniatáu imi wneud nifer o bwyntiau am ein dull gweithredu strategol, fel y byddwn wedi dymuno ar ddechrau'r sesiwn, ac felly dyma fi'n eu nodi yn y llythyr dilynol hwn yn lle hynny.

Yn gyntaf, hoffwn dalu teyrnged i wasanaeth sifil Llywodraeth Cymru. Mae'r ymateb i'r argyfwng gan staff ar bob lefel wedi bod yn wych. Gofynnwyd i bobl gyflawni rolau gwahanol iawn i'w rolau arferol, ac weithiau bu'n rhaid iddynt newid dros nos, gyda llawer ohonynt yn gweithio oriau eithriadol o hir bob dydd, gan gynnwys penwythnosau. Ni allwn fod wedi gofyn am well ymateb gan y sefydliad. Mae'r Prif Weinidog a finnau'n ymwybodol iawn o'r angen i ddiogelu llesiant pawb yn sgil y pwysau ar staff i weithio mor gyflym, a hefyd effeithiau'r cyfyngiadau symud arnynt. Rwyf innau, ac uwch



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

aelodau fy nhîm, yn gwneud popeth o fewn ein gallu i helpu ein staff drwy'r cyfnod anodd hwn.

Mae'n gyfnod anarferol tu hwnt, lle mae'r digwyddiadau'n gymhleth a phethau'n symud yn gyflym. Nid oes unrhyw rannau o'n heconomi na'n bywyd cymunedol nad yw'r argyfwng wedi effeithio arnynt. Mae bywyd yn wahanol iawn inni i gyd ers i'r cyfyngiadau symud ddod i rym ar 23 Mawrth. Mae cyflawni busnes o bell wedi dod yn rhan o 'normal' i bob un ohonom erbyn hyn, ac ar wahân i ambell broblem fach fel yr un a gododd yn sesiwn y Pwyllgor, mae pethau'n gweithio'n llwyddiannus iawn. Fel y mae'r Pwyllgor yn gwybod, y llynedd buddsoddodd Llywodraeth Cymru mewn gwaith pellgyrhaeddol i uwchraddio ein hoffer TG. Rwyf wedi credu erioed mewn buddsoddi mewn offer TG da, a dyna pam yr oeddwn yn awyddus i fwrw ymlaen â'r gwelliannau hynny. Fodd bynnag, nid oeddwn erioed wedi disgwyl gweld cymaint o fudd yn deillio o fuddsoddiad â'r budd yr ydym yn ei weld ar hyn o bryd, lle mae bron pob aelod o'n staff yn gweithio gartref gan ddefnyddio eu hoffer newydd. Nid wyf yn siŵr sut byddem wedi llwyddo i ymdopi yn yr un modd heb y buddsoddiad hwnnw mewn offer newydd a'r hyfforddiant perthnasol i gael y gorau ohono.

Pan ddaeth yn glir gyntaf ein bod yn wynebu argyfwng iechyd cyhoeddus difrifol iawn a oedd yn mynd i effeithio ar bob agwedd ar Lywodraeth Cymru, yn rhinwedd fy swydd fel yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu, roedd gennyf dri phryder mawr. Fy mhryder cyntaf oedd sut y byddai'r gwasanaeth sifil yn gallu ymateb yn gyflym ac yn hyblyg er mwyn rhoi'r cymorth priodol i Weinidogion allu ymateb i'r argyfwng yn effeithiol er budd pobl Cymru. Fy ail bryder oedd sut y gallem wneud hynny ac ar yr un pryd sicrhau bod y rheolaeth a'r atebolrwydd priodol yn parhau mewn perthynas â gwario arian cyhoeddus. A fy nhrydydd pryder oedd sut i sicrhau llesiant ein staff.

Roeddwn hefyd yn teimlo bod tair risg ddifrifol yr oedd angen imi eu cydnabod fel Swyddog Cyfrifyddu, ac mae'r risgiau hynny'n parhau. Y risg gyntaf yw bod cymaint o frys i gyflwyno mesurau ar gyfer ymateb i'r argyfwng fel nad ydym yn sicrhau gwerth da am arian i'r trethdalwr, naill ai oherwydd nad yw'r mesurau eu hunain yn rhoi gwerth am arian neu oherwydd ein bod yn methu â gweithredu'r mesurau'n effeithiol. Yr ail risg yw nad ydym yn cadw rheolaeth dros ein cyllideb yn ei chyfanrwydd, gan fod ymrwymiadau gwariant yn crynhoi ac yn tyfu'n fwy nag y byddwn yn gallu ei fforddio. A'r drydedd risg yw bod twyllwyr yn llwyddo i gymryd mantais ohonom drwy ddefnyddio'r ffaith ein bod yn cyflawni gwaith ar frys gan ddefnyddio prosesau sydd wedi eu symleiddio.

Mae'r argyfwng hwn wedi digwydd yn syth wedi'r gwaith a wnaethom y llynedd i baratoi ar gyfer y posibilrwydd o ymadael â'r UE heb gytundeb, ac rydym wedi ceisio defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r profiad hwnnw. Un o'r pethau a ddysgwyd oedd pa mor



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

werthfawr oedd cael grŵp cydgysylltu uwch ar gyfer swyddogion y mae pob aelod o'm tîm uwch yn aelodau ohono, yn ogystal â chynrychiolwyr o bob un o'r meysydd gweithgarwch allweddol. Felly rwyf wedi sefydlu'r Grŵp ExCovid yr wyf eisoes wedi sôn amdano wrth y Pwyllgor, ac mae'r grŵp hwnnw'n cyfarfod ddwywaith yr wythnos.

O dan arweinyddiaeth ac arweiniad y Gweinidogion, mae ExCovid yn gweithredu fel system glirio strategol ar gyfer rhannu gwybodaeth; cadw golwg ar hynt y gwaith a'i gynnydd; gwneud yn siŵr ein bod wedi nodi materion y dydd ac yn ymateb iddynt; a sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadnoddau yn y modd mwyaf effeithiol posibl. Mae'r holl Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol a benodwyd gennyf yn aelodau o ExCovid, ac un o rolau pwysig y grŵp yw darparu fforwm lle y gallwn nodi materion sy'n berthnasol i Swyddogion Cyfrifyddu wrth iddynt godi. Drwy wneud hynny, gallwn wneud yn siŵr bod ein hymatebion yn gyson, a thrafod y camau gweithredu y mae angen eu cymryd a'r prosesau y mae angen eu rhoi ar waith.

Daeth yn glir y byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniadau ar frys gan fwrw ymlaen yn gyflym i'w gweithredu, rhywbeth na fyddem yn ystyried ei wneud fel arfer. Roedd yn amlwg nad fyddai digon o amser ar adegau i ystyried, dadansoddi a pharatoi dogfennaeth yn ofalus ymlaen llaw. Fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, roeddwn yn teimlo bod angen imi gydnabod y ffaith honno, ond hefyd bod angen osgoi'r risg a allai godi o gyflawni gweithredoedd cyn iddynt gael eu hystyried yn drwyadl, neu sefyllfa lle na fyddem yn gallu dangos ein bod wedi defnyddio arian cyhoeddus yn briodol. Felly, ysgrifennais at fy holl Swyddogion Cyfrifyddu ychwanegol yn dweud wrthynt fy mod am iddynt gynyddu eu parodrwydd i dderbyn risgiau, a hynny mewn modd dewisol, gan gydnabod ar yr un pryd ei bod yn parhau'n bwysig defnyddio arian cyhoeddus yn briodol. Dywedais os nad oedd yn bosibl darparu'r ddogfennaeth lawn i gyfiawnhau penderfyniad ymlaen llaw yn y ffordd arferol, y byddai'n bwysig bod cyfrifon ôl-weithredol yn cael eu gwneud.

Ar adegau, rydym wedi gorfod gwneud penderfyniadau, o fewn oriau, mewn perthynas â'n cyfrifoldebau fel Swyddogion Cyfrifyddu, pan fyddem wedi disgwyl yn y gorffennol cael dyddiau i bwyso a mesur mater o'r fath yn ofalus, ac wrth gwrs rydym yn derbyn bod hyn yn rhan hanfodol o'r angen i ymateb i'r argyfwng â'r cyflymder angenrheidiol. Mae'r pandemig hwn yn fath o sefyllfa sy'n digwydd unwaith mewn canrif, ac felly rhaid derbyn ein bod yn gorfod addasu ein dulliau gweithredu arferol. Rydym yn ymdrin yn ddyddiol â materion a fyddai fel arfer yn cymryd misoedd i'w datrys - er enghraifft cymerodd 11 o ddyddiau i sefydlu'r ysbyty maes yn Stadiwm y Principality, a gosod yr offer a'r dodrefn ynddo. Fel arfer, byddai'n cymryd oddeutu 11 o flynyddoedd i adeiladu ysbyty newydd.



Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ
Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Er gwaethaf hyn i gyd, rydym yn llwyddo i gynnal ein prosesau ariannol craidd, ac mae'r rheini'n dal yn gadarn, ac rydym yn nodi ac yn ymdrin â risgiau wrth iddynt ddod i'r amlwg, gan gynnal trywydd archwilio cywir, er bod angen creu rhai ohonynt yn ôl-weithredol.

Mae'n ffaith drist bod rhai pobl ddiegwyddor yn gweld argyfwng fel hwn fel cyfle i dwyllo eraill, ac rydym yn ymwybodol iawn o'r risg hon ac yn gwneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan gydweithio ar weithgareddau sy'n cael eu cydgysylltu gan Drysorlys Ei Mawrhydi yn Llundain. Rydym wedi sicrhau bod ein tîm gwrth-dwyll yn parhau'n weithredol ac rydym wedi cyhoeddi canllawiau diwygiedig ar gyfer y staff. Rydym hefyd yn rhannu ein canllawiau, a'r hyn yr ydym yn ei ddysgu fel rhan o'n gweithgarwch gwrth-dwyll, gyda gweddill y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn cyfathrebu'n barhaus ac yn effeithiol gyda'n cyrff cyhoeddus, ac rydym yn rhannu ein canllawiau gyda nhw yn rheolaidd, gan eu bod yn ymwneud â materion megis paratoi cyfrifon, cyfarfodydd cyffredinol blynyddol, materion sy'n ymwneud â'r cynllun ffyrlo a sut mae'n cael ei weithredu, cyflogau a thaliadau cydnabyddiaeth yn y sector cyhoeddus, a phensiynau. Rydym hefyd wedi helpu i hwyluso'r gwaith o adnabod gweithwyr allweddol a defnyddio'r staff i gyflawni rolau eraill ar draws y gwasanaeth cyhoeddus. Er ein bod yn cydnabod y bydd ein cyrff cyhoeddus eu hunain yn atebol am faterion sy'n codi yn eu meysydd eu hunain, rydym yn falch o allu rhannu ein profiadau, ynghyd â'r hyn yr ydym wedi ei ddysgu, gyda nhw ac i ddysgu oddi wrthynt hwythau hefyd.

Rydym wedi cyhoeddi canllawiau diwygiedig ar gyfer y staff ar amrywiaeth o faterion y mae Swyddogion Cyfrifyddu yn ymwneud â nhw, megis rheoli grantiau, caffael a rheoli arian parod. Nod y canllawiau yw sicrhau ein bod yn defnyddio dull gweithredu cyson ar draws y sefydliad cyfan, ac yn helpu staff i ganolbwyntio ar yr hanfodion wrth iddynt weithio ar gyflymder. Er mwyn helpu ymhellach, mae llawer o'n staff cyllid proffesiynol bellach yn canolbwyntio bron yn gyfan gwbl ar ddarparu cymorth a chyngor mewn perthynas â'r ymateb i'r argyfwng COVID-19, gyda rhai ohonynt wedi ymsefydlu yn y rhannau hynny o'r swyddfa sy'n wynebu heriau penodol.

Mae'n hanfodol cadw golwg ar bob agwedd ar wariant mewn perthynas â'r argyfwng, ac rydym wedi cyflwyno proses sydd wedi ei chynllunio'n benodol ar gyfer nodi a chofnodi'r gwariant hwnnw. Mae gan Adran y Trysorlys gyfrifoldeb dros gadw golwg gyffredinol ar yr holl ymrwymiadau gwariant, gan ddarparu cyngor ynglŷn â'r hyn sy'n fforddiadwy, a chysylltu ar lefel swyddogol â Thrysorlys Ei Mawrhydi ynghylch y sefyllfa newidiol o ran pa adnoddau ychwanegol y mae Llywodraeth y DU yn eu darparu.

Ar draws Llywodraeth Cymru, mae llawer o staff wedi cael eu symud, weithiau dros nos, i naill ai arwain neu gefnogi'r gwaith newydd. Mae'n rhaid gweithredu rota ar gyfer

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

staffio ein hystafell Rheoli Argyfwng. Mae hynny wedi golygu y bu’n rhaid gohirio rhywfaint o waith arall, ac er bod y gwaith hwnnw’n bwysig hefyd nid oes cymaint o bwysau i’w gyflawni ar frys. Wrth inni edrych ymlaen at y Rhaglen Adfer, yn ogystal ag ymdrin â’r materion uniongyrchol sy’n gysylltiedig â’r feirws, bydd angen gwneud newidiadau cyson i sut yr ydym yn defnyddio ein staff, er mwyn inni allu parhau i sicrhau cynnydd mewn perthynas â blaenoriaethau Gweinidogion a gwasanaethu pobl Cymru. Bydd hynny’n her, ond rwy’n cydnabod ei fod yn hanfodol inni ddechrau edrych y tu hwnt i’r argyfwng presennol a pharatoi ar gyfer bywyd wedi hynny.

Pan fyddwn o’r diwedd yn dechrau dod allan o’r amgylchiadau presennol sydd mor heriol ac anodd, byddwn wedi dysgu llawer fel sefydliad, ac rwy’n benderfynol y byddwn yn elwa yn y dyfodol ar yr hyn a ddysgwyd.

Rwy'n anfon copi o’r llythyr hwn at Gadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Yn gywir,

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en